# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw
# ar y 8ed o Ionawr 2019
# yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**
Cynghorwyr Carys Morgan (Cadeirydd), Wyn Evans, Wyn Jones, Barry Owen, Eiddwen Merritt, Gerallt Davies a Ruby Williams.
**Hefyd yn bresennol:**
Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.
**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Garym Roberts a Jocelyn Andrew.
**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.
**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Tachwedd a'u cafwyd yn gywir.
**Codi o'r cofnodion:**
Nodwyd fod y twll yn y ffordd tu allan i New Foundry wedi ei lanw ond fod y coed heb eu torri yn y 'layby', dywedodd y Cynghorydd Marc Davies ei fod yn disgwyl adroddiad o'r Adran Briffyrdd ynglyn a hyn.
**Materion Cynllunio:**
Rhif 51/1.
Er Gwybodaeth.
Gwyro Llwybr Troed yn Gilfach yr Halen.
**Swm Priodol o dan Adran 137(4)**
Derbyniwyd lythyr o Lywodraeth Cymru yn datgan mae £8.12 yw'r swm priodol ar gyfer 2019-20 i bob etholwr at ddibenion adran 137(4) ar gyfer Cyngor Cymuned.
**Trefniadau'r Praesept 2019/2020**
Trafodwyd praesept am y flwyddyn 2019/20 a phenderfynwyd gofyn i Gyngor Sir Ceredigion am £6000.00 sydd 'run peth a llynedd.

**Unrhyw Fater Arall:**
Diolchodd y Clerc am y blodau a dderbyniodd yn ddiweddar yn ystod ei salwch.
Soniodd y Cynghorydd Sirol Marc Davies y dylau'r cam cyntaf o osod palmant ar Rhiw Goch ddechrau'n fuan.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 12fed o Chwefror.